CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 21 Mawrth 2022 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer),
Menna Jones, Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis Ken Hawkins, Gavin Harris, Ian Lewney, Jabez Redfern Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, a Mike van der Eijk
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.
YN BRESENNOL: Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Marian Rees – Cyfieithydd

216. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ethan Jones, Rachel Lewington, ac Ifan Wyn.

217. DATGAN BUDDIANNAU
Datganodd y Cynghorydd Menna Jones fuddiant yn eitem 13 'Nawdd i'r Urdd' *(cofnod 228)* fel aelod o Bwyllgor Apêl lleol yr Urdd.

218. PLISMONA CYMUNEDOL
Trafododd yr Aelodau adroddiad ysgrifenedig ar faterion plismona cymunedol lleol a gyflwynwyd gan y Rhingyll Rich Evans o Heddlu Gogledd Cymru, ac a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Diolchodd y cynghorwyr tref i'r tîm plismona lleol a chydnabod ei waith a'i ymdrechion parhaus yn lleol. Er eu bod yn nodi bod gyrru anghymdeithasol yn y dref yn destun cynllun plismona, mynegwyd fod angen mynd i'r afael â'r broblem barhaus hon ar frys. Gofynnodd yr Aelodau am i swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod yn fwy gweladwy o amgylch y dref.
PENDERFYNWYD*: nodi'r adroddiad ysgrifenedig ar blismona cymunedol lleol fel y'i dosbarthwyd ac i gyfleu'r sylwadau ar yrru anghymdeithasol a'r ffaith y dylai swyddogion fod yn fwy gweladwy, i'r Rhingyll Rich Evans.*

219. ADRODDIAD Y MAER
Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Chwefror 2022. Yn ogystal â hynny:

- dywedodd y Maer ei bod, fel rhan o arddangosfa a digwyddiadau llwyddiannus Dyfodol Rhuthun, wedi beirniadu cystadleuaeth y Marathon Lluniau;
- diolchodd i bawb a oedd wedi cefnogi, cyfrannu a dod i Ginio Elusennol y Maer
- llongyfarchodd Ysgol Borthyn ar fod yn llwyddiannus yn ennill cystadleuaeth genedlaethol a chael gwobr cynaliadwyedd
- roedd wedi ymweld â dau o drigolion Rhuthun i nodi eu pen-blwydd yn 100 oed.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

220. ADRODDIADAU'R AELODAU

Ystyriodd yr Aelodau Adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.

Mynegodd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis bryderon trigolion lleol Stryd y Farchnad am fwg sy'n cael ei ryddhau o fysus sy'n sefyll, a defnydd y cyhoedd o gilfachau parcio'r trigolion ar y stryd. Dywedodd y Cynghorwyr Sir lleol y byddent yn mynegi'r pryderon i swyddogion perthnasol y Cyngor.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys adroddiadau'r Aelodau.*

221. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Nodwyd adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda. Yn ogystal, dywedwyd wrth yr Aelodau fod pob Cyngor Unedol yng Nghymru ar rybudd coch i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin, ac roedd y Cyngor Sir yn gweithio'n galed i baratoi i groesawu ffoaduriaid pan fyddai angen.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.*

222. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.*

223. MATERION YN CODI

Cofnod 198 – Cronfa Codi'r Gwastad: Rydym yn dal i aros am gadarnhad o'r dyddiad i gyflwyno cais Etholaeth Gorllewin Clwyd i Gronfa Codi'r Gwastad.

224. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022.*

225. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022.*

226. CONTRACAU: (i) TORRI GLASWELLT 2022 A (ii) DYFRIO PLANHIGION 2022

Trafododd yr Aelodau argymhellion canlynol y Pwyllgor Amwynderau ar gyfer dyfarnu contractau'n ymwneud â thorri glaswellt a dyfrio planhigion:

(i) bod y Cyngor Tref yn derbyn y pris am dorri glaswellt gan Gwmni Buddiannau Cymunedol Llanfwrog am gost o £3,828.06; a

(ii) bod y Cyngor Tref yn derbyn y pris am ddyfrio'r planhigion gan J and C Brimble am gost o £4,664.00

PENDERFYNWYD*: bod Cyngor Tref Rhuthun:*

(i) yn derbyn y pris am dorri glaswellt gan Gwmni Buddiannau Cymunedol Llanfwrog am gost o £3,828.06; ac

(ii) yn derbyn y pris am ddyfrio'r planhigion gan J and C Brimble am gost o £4,664.00.

227. GRŴP CRAFFU AR DDOGFENNAU

Rhoddwyd cadarnhad i'r Aelodau bod y Grŵp Craffu ar Ddogfennau wedi cyfarfod i drafod ymatebion ffurfiol i ddwy ddogfen ymgynghori (i) 'Y Sir Ddinbych a Garem 2022-2027 – Cynllun Corfforaethol' ac (ii) 'Ymgynghoriad ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau

(Cymru) 2021: canllawiau statudol i Gynghorau Cymuned a Thref'. Roedd Cyngor Tref Rhuthun wedi cyflwyno ymateb i'r ddau ymgynghoriad. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Adroddiad Blynyddol ymhlith y gofynion o 2022 ymlaen, ynghyd â chynlluniau hyfforddi ar gyfer holl Gynghorwyr Tref a Chymuned.
PENDERFYNWYD*: nodi bod ymatebion i'r ddau ymgyghoriad wedi cael eu cyflwyno gan Gyngor Tref Rhuthunl.*

228. YR URDD – NAWDD
Rhoddodd Clerc y Dref eglurhad i'r Aelodau o fanylion y nawdd o £10,000 a ddarparwyd gan Gyngor Tref Rhuthun i Eisteddfod yr Urdd 2022. Roedd y manylion wedi'u dosbarthu'n flaenorol. Roedd yr Aelodau wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â'r Urdd i holi am gyfleoedd noddi ychwanegol posibl. Cynigiodd yr Urdd i'r Cyngor Tref gael sgrin 50" yn y Pafiliwn Celf a Chrefft i chwarae fideo yn hyrwyddo Rhuthun, am gost o £500 am yr wythnos gyfan. Gellid defnyddio'r fideo, ar ôl ei gynhyrchu, fel deunydd hyrwyddo yn y dref ac ar y wefan. Roedd yr Aelodau'n awyddus i fynd ar drywydd yr opsiwn a amlinellwyd a gofynnwyd am i adroddiad yn amlinellu cost y cynhyrchiad fideo gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD*: (i) nodi manylion y nawdd o £10,000 gan Gyngor Tref Rhuthun i Eisteddfod yr Urdd; a (ii) bod costau posibl y cyflwyniad fideo yn hyrwyddo Rhuthun yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.*

229. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER
Gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno enwebiadau ar gyfer Maer am y flwyddyn ddinesig 2022-23. Enwebwyd y Cynghorydd Menna Jones yn Faer, wedi'i chynnig gan y Cynghorydd Stephen Beach, a'i heilio gan y Cynghorydd Gavin Harris. Ni chafwyd rhagor o enwebiadau a
PHENDERFYNWYD*: enwebu'r Cynghorydd Menna Jones yn Faer Rhuthun am y flwyddyn ddinesig 2022-23.*
Gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig 2022-23. Enwebwyd y Cynghorydd Anne Roberts yn Ddirprwy Faer, wedi'i chynnig gan y Cynghorydd Christine Ellis, a'i heilio gan y Cynghorydd Jim Bryan. Ni chafwyd rhagor o enwebiadau a
PHENDERFYNWYD*: enwebu'r Cynghorydd Anne Roberts yn Ddirprwy Faer Rhuthn am y flwyddyn ddinesig 2022-23.*

230. DYFARNIAD CYFLOG CENEDLAETHOL 2021/22
Derbyniodd y Cyngor Tref Ddyfarniad Cyflog Cenedlaethol 2021/22 y cytunwyd arno ac a gyhoeddwyd. Fe'i cadarnhawyd fel 1.75 y cant ar 2 Mawrth 2022, a chafodd ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2021.
PENDERFYNWYD*: nodi bod Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol 2021/22 y cytunwyd arno wedi cael ei gadarnhau fel 1.75 y cant a'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2021.*

231. DATGANIAD ARIANNOL
Derbyniodd yr Aelodau y datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2022.
PENDERFYNWYD: *derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2022.*

232. CYFRIFON I'W TALU
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo taliad yr eitemau canlynol.*

OB	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu – Chwefror 2022	*	£281.21
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau Cyfrifo a'r Gyflogres -	*	£240.00

		Mawrth 2022		
OB	RIG Joinery Ltd	Arwydd ar gyfer yr Hen Lys (rhan o gais am Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru)	*	£75.80
OB	J&C Brimble	Dyfrio basgedi crog – Gorffennaf a Hydref 2022		£1739.95
OB	Leonardo's Delicatessen Ltd	CoLab Dyfodol Rhuthun – Cinio Bwffé		£285.00
OB	BT	Ffôn, band eang a darpariaeth rhyngrwyd - Mawrth 2022	*	£91.20
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Goleuadau Nadolig 2021 – 2022	*	£4,518.54
OB	Play Inspection Company	Archwiliad ac Adroddiad Diogelwch		£156.00
OB	Cymorth Cynllunio Cymrus	Hyfforddiant ar-lein – Tanysgrifiad Blynyddol 'Cynllunio o'r Dechrau i'r Diwedd'		£150.00
OB	Cyng Heather Williams	Ad-daliad: Blodau/planhigion i ddau berson a oedd yn dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed		39.90
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Costau tanysgrifio Misol Microsoft Rhagfyr 2021 – Mawrth 2022	*	£75.84
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Manion – Deunydd swyddfa a glanhau	*	£36.30
	O gyfrif yr Hen Lys			
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Ardrethi Annomestig (4ydd o 4 taliad) o'r cyfnod 01.04.19 i 31.03.22	*	£2,028.00
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Ardrethi Annomestig (3ydd o 4 taliad) o'r cyfnod 01.04.19 i 31.03.22 *(cymeradwyaeth ôl-weithredol)*	*	£2,028.00

233. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai nos Lun 25 Ebrill 2022 am 7pm y cynhelir y cyfarfod arferol nesaf.*